Adroddiad ar Bost yng Nghymru Chwarter 2



Canlyniadau Chwarter 2 (Mehefin - Medi 2011)

Llwyddodd y Post Brenhinol i gyflawni chwech o'r wyth targed ar gyfer post dosbarth cyntaf stamp a mesurydd mewn ardaloedd codau post yng Nghymru yn ystod ail chwarter y flwyddyn. Roedd y perfformiad wedi gwella'n sylweddol ers y chwarter blaenorol, gydag ardaloedd NP ac LD yn rhagori ar eu targedau. Er bod hyn yn galonogol iawn, mae'n bwysig fod y duedd hon yn parhau yn ystod y chwarter nesaf.

Caer a Glannau Dyfrdwy (CH) oedd yr ardal ?'r perfformiad gwaethaf, ac wedyn Abertawe (SA), gyda'r ddwy ardal yn methu ? chyflawni'r targed. Gwnaed newidiadau er mwyn moderneiddio'r gwasanaeth yn yr ardaloedd hyn yn ddiweddar, ac mae'n debyg mai dyna'r rheswm dros hyn. Rydym yn pwysleisio unwaith eto na ddylai unrhyw aflonyddwch oherwydd gwaith moderneiddio fod yn ddifrifol na pharhau am amser hir, ac rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn ystod y chwarter nesaf.

Map Post Cymru

Mae'r holl wybodaeth a ddarperir gennym ar hyn o bryd ar gyfer yr Adroddiad Chwarterol hwn ar gael ar-lein bellach. Gallwch ddefnyddio Map Post Cymru i chwilio yn ôl codau post i weld perfformiad eich ardal chi o ran y targedau dosbarthu a chwynion. Mae'n caniatáu i chi gymharu ffigurau a chanlyniadau perfformiad ar gyfer pob chwarter mewn graffiau a thablau hawdd eu darllen. Gobeithiwn y bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i chi weld perfformiad y Post Brenhinol yn eich ardal chi, ac yn amlygu unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud. Gallwch fynd i'r wefan trwy glicio http://walesmail.cflabs.org.uk/cy